GWASANAETHWCH ARGLWYDD Y CYNHAEAF

Nodyn i'r siaradwr:
Eglurwch nad ydi gwasanaethu'n weision i Jehofah ddim yn orthrymus ond bod llawenydd yn dilyn. Byddwch yn gadarnhaol, a phwysleisio'r bendithion sy'n deillio o wasanaeth ffyddlon

CYFFELYBODD IESU EI DDISGYBLION I WEISION EU HARGLWYDD, JEHOFAH DDUW (6 mun.)

I lawer mae "caethwas" a "chaethiwed" yn ennyn meddyliau negyddol, oherwydd y camdrin, y llafur caled, a'r colli rhyddid mae caethweision yn gyffredinol wedi'u dioddef (*w*92 4/1 3, 4)

Cyfeirir at Gristionogion fel caethweision Duw oherwydd eu prynu "am bris" (1Cor 7:23)

Yn rhinwedd yr aberth pridwerthol, maen' nhw wedi'u rhyddhau oddi wrth gaethiwed i bechod a marwolaeth ac wedi'u gwneud eu hunain ar gael i wasanaethu Duw (In 3:16; 2Cor 5:14, 15)

Maen' nhw dan rwymedigaeth i gadw'i orchmynion

Yn debyg i'r caethwas Hebreig sy'n caru'i feistr, dylai Cristionogion fod yn awyddus i wasanaethu'r Arglwydd, Jehofah, a roddodd fywyd iddyn' nhw a'i holl fendithion (Ex 21:5, 6; 1In 5:3)

Gan mai Duw ydi'u Harglwydd nhw, 'fedr Cristionogion ddim gwasanaethu meistri eraill a pharhau i'w fodloni e (Mth 6:24)

Gosododd Iesu'r patrwm drwy roi gweithio i'w Dad nefol yn flaenoriaeth (In 4:34)

Mae pawb ar y ddaear yn perthyn i un o ddwy garfan—y rhai sy'n gwasanaethu Duw yn ddisgyblion i Iesu Grist a'r rheiny nad ydyn' nhw'n gwneud hynny (Mth 12:30; 1Cor 10:21)

ARGLWYDD CARIADUS YW JEHOFAH DDUW, SY'N DEILWNG O'N GWASANAETH (7 mun.)

Dangosodd Iesu mai Arglwydd sy'n gofalu ac sy'n gariadus ydi Jehofah

Ar un ymgyrch bregethu, gwelodd fod y bobl mewn angen ysbrydol mawr a thosturiodd wrthyn' nhw (Mth 9: 35, 36; *gt* 49)

Dangosodd i'w ddisgyblion fod llawer o waith o'u blaenau (Mth 9:37)

Ac eto, fe'u sicrhaodd nhw y byddai "Arglwydd y cynhaeaf," Jehofah Dduw, yn eu helpu nhw i gwblhau'r cynhaeaf (Mth 9:38)

Wedi dweud wrth ei ddisgyblion i ofyn am ragor o weithwyr, anfonodd Iesu nhw allan i'r maes gyda chyfarwyddiadau penodol (Mth 10:1, 5-15)

'Roedden' nhw i bregethu'r Deyrnas (Mth 10:7)

'Doedd y disgyblion ddim i gael eu llygad-dynnu gan fateroliaeth wrth gyfrannu yn y cynhaeaf (Mth 10:9-11)

'Roedden' nhw i fynd at bob deiliad tŷ gyda neges heddwch (Mth 10:12-15)

Cafodd y rhai oedd â rhan yn y gwaith fel y cyfarwyddodd Iesu lawer o lawenydd a derbyn bendithion gan eu Harglwydd cariadus (Lc 10:17-20)

Bendithiwyd gwaith y cynhaeaf yn y ganrif gyntaf gan yr Arglwydd

Ddydd Pentecost 33 C.C., bedyddiwyd tua 3,000 (Act 2:41)

Parhaodd Jehofah i roi'r cynnydd (Act 2:47b; 4:4; 5:14)

Ac eto, mae angen rhagor o weithwyr—Pam?

BYDD Y GWAITH CYNAEAFU YN DOD I'W ANTERTH YN AMSER Y DIWEDD (15 mun.)

Mewn eglureb rymus, rhagfynegodd Iesu y deuai'r gwaith cynaeafu i'w anterth yn amser y diwedd. Darllen Mathew 13:24-30 (Mth 13:36-39; *w*81 8/1 16-26; *kc* 102-3)

Cynrychioli Iesu mae'r "un sy'n hau"

Cynrychioli Cristionogion ŷd-debyg, "meibion y deyrnas," neu Gristionogion eneiniog mae'r "had da" (*uw* 180)

Apostolion Iesu a disgyblion eraill a dderbyniodd ddawn yr ysbryd sanctaidd adeg Pentecost 33 C.E. oedd y cyntaf o'r rhain (*w*81 8/1 18)

'Y gelyn' ydi'r "diafol"

"Meibion yr un drwg" ydi'r "efrau"—ei epil rhagrithiol-grefyddol yng Ngwledydd Cred (*w*81 8/1 19, 20)

"Diwedd y byd" ydi'r "cynhaeaf" (*w*81 8/1 22)

'Rydym 'nawr yn amser cynhaeaf

Dan gyfarwyddyd angylaidd mae'r ŷd yn cael ei wahanu oddi wrth yr efrau (*w*81 8/1 24, 25; *ws* 68)

Mae eu cyflwr goleuedig nhw a'u gwasanaeth gogoneddus yn peri i ddosbarth yr ŷd "ddisgleirio . . . fel goleuadau yn y byd" (Mth 13:43; Phil 2:15)

Wrth i "feibion y deyrnas" ganiatáu i'w golau ddisgleirio, cynorthwyir llawer eraill sydd â chlustiau sy'n barod i wrando ganddynt i ffoi o afael dosbarth yr efrau

Oddi ar canol y 1930au, mae mewnlifiad y "dyrfa fawr" o "ddefaid eraill" wedi bod ar gynnydd parhaol (In 10:16; Dat 7:9, 10)

Ble ydych chi'n sefyll ynglŷn â chyflawniad eglureb Iesu am yr ŷd a'r efrau?

'Ydych chi'n cefnogi'r gwaith cynnull a wneir gan frodyr eneiniog ŷd-debyg Iesu?

HEDDIW GWAHODDIR NI I WASANAETHU ARGLWYDD Y CYNHAEAF TERFYNOL (12 mun.)

Mae gofyn llawer o weithwyr ar gyfer y gwaith cynaeafu mawr sy'n digwydd heddiw

Rhaid i bawb o wir addolwyr Jehofah gymryd rhan ym mhregethu ac addysgu gwirioneddau'r Deyrnas (Mth 24:14; 28:19, 20)

Ystyriwch eich hun yn erfyn yn nwylo Duw (1Cor 3:6, 7)

Plannwch a heuwch hadau'r gwirionedd yn y weinidogaeth gyhoeddus

Bydd rhai yn ymateb; bydd eraill na wnânt

Yn llythrennol, mae miloedd yn cael eu helpu i gael gwybodaeth gywir y gwirionedd (Ymgynghorwch â'r *Blwyddlyfr* cyfredol ynghylch yr ystadegau diweddaraf ar nifer y cyhoeddwyr, cynnal astudiaethau'r Beibl yn y cartref, ac yn y blaen; adroddwch un neu ddau brofiad a restrir yn yr *Index* o dan *"Field Ministry"* i ddangos yr ymateb cadarnhaol sydd i'r gwaith pregethu)

Cydnabyddwch eich cyfrifoldeb personol chi i gael rhan yn y weinidogaeth

'Dyw dim ond byw bywyd da ddim yn ddigon; rhaid bod yn weithredol gynhyrchu ffrwyth y Deyrnas (Salm 34:1; Act 5:28, 29, 42; 10:42)

Rhowch sylw i gyngor y Beibl i fod yn helaeth yng ngwaith yr Arglwydd (1Cor 15:58)

Mae llawer sy'n cyfeillachu heb gael eu bedyddio eto

'Rydym yn eich annog i ystyried eich amgylchiadau personol o ddifrif

Am fod y diwedd yn agos, peryglus ydi oedi derbyn cyfrifoldeb ac ymgysegru (*w*92 10/1 20-3)

MAE LLAWENYDD A BENDITHION YN AROS Y RHAI SY'N CYFRANNU'N FFYDDLON YN Y GWAITH CYNAEAFU (5 mun.)

Braint werthfawr ydi cael rhan yn y gwaith cynaeafu mawr sy'n digwydd dan gyfarwyddyd Arglwydd y cynhaeaf, Jehofah

Darlunir y llawenydd a'r bendithion gan Ŵyl y Cynnull, neu Ŵyl y Pebyll yn hanes Israel gynt (Deut 16:13-15; *it-1* 823)

Yn union fel dathlwyr hen ŵyl gynt, darlunir tyrfa fawr heddiw â changhennau palmwydd yn eu dwylo yn llawen dadogi iachawdwriaeth ar Dduw a'r Oen (*re* 122)

Mae gan y dyrfa fawr y sail gobaith rhyfeddol o oroesi'r "gorthrymder mawr" a byw ar ddaear newydd (Dat 7:14; 2Pedr 3:13)

Mae'r bendithion hyn yn eiddo iddyn' nhw am eu bod "wedi golchi eu mentyll a'u cannu yng ngwaed yr Oen" ac "yn ei wasanaethu ddydd a nos" (Dat 7:15; *re* 126)

Gallwch chwithau hefyd fwynhau'r bendithion rhyfeddol hyn drwy gael cyfran ffyddlon yn y gwaith cynaeafu godidog heddiw

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)